# Cymru



Amgueddfa Lechi Cymru

Ers 1994, rydym wedi dyfarnu dros £500m o arian y Loteri Genedlaethol a chyllid arall i fwy na 3,400 o brosiectau yng Nghymru.

O'n harfordiroedd a'n cestyll i'n tirweddau, ein llenyddiaeth ac un o'r ieithoedd llafar hynaf yn Ewrop, mae gan Gymru dreftadaeth hynafol a chwedlonol.

Rydym yn falch o chwarae rhan yn y gwaith o warchod a dathlu dinasoedd bywiog, tirweddau hardd, safleoedd hanesyddol a diwylliannau amrywiol y wlad. Mae'n rhan o'n gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal  ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Yr haf hwn, mae ein tîm yng Nghymru yn mynd i Wrecsam i gysylltu â chymunedau ac arddangos y gwaith rydyn ni’n ei gefnogi yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cliciwch yma i weld ein cynlluniau am yr wythnos.

## Mynnwch ysbrydoliaeth ar gyfer eich prosiect

Edrychwch isod ar astudiaethau achos prosiect a'r newyddion diweddaraf o'ch ardal.

Expand All  accordions

# Gwneud cais am ariannu

### Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar agor – os oes gennych syniad am brosiect yng Nghymru, byddai’n bleser gennym glywed oddi wrthych. Mae grantiau ar gael o £10,000 hyd at £10m.

Cael gwybod mwy a gweld pa ariannu sydd ar gael.

**Gwyliwch ein fideo i'ch helpu i wneud cais am grant rhwng £10,000 a £250,000**

Expand All accordions

# Digwyddiadau sydd ar y gweill

Mae ein gweithdai ariannu a'n sesiynau cynghori rheolaidd yn gyfle gwych i gael gwybod am ein cyllid, cael awgrymiadau ar sut i wneud cais da a rhwydweithio gyda sefydliadau eraill o'ch ardal.

Dysgwch am ddigwyddiadau sydd ar y gweill yma.

Expand All accordions

# Cysylltwch â ni

Ydych chi'n ystyried gwneud cais i ni am grant hyd at £250,000? Cyflwynwch Ymholiad Prosiect i dderbyn adborth ar eich syniad am brosiect cyn i chi wneud cais llawn. Byddwn yn cysylltu'n ôl â chi o fewn 10 diwrnod gwaith.

Cyflwyno Ymholiad Prosiect

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr.

### Manylion cyswllt

E-bost: cymru@heritagefund.org.uk

Rhif Ffôn: 029 2034 3413 (Dydd Llun i Gwener, 9.00am–5.00pm)

Cyfeiriad:

Clockwise Offices, T? Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd, CF24 0EB

Rydym yn gwbl weithredol ac yn agored i fusnes, ond rydym yn cynnal llawer o'n gwaith o ddydd i ddydd o’n cartrefi.

Anfonwch unrhyw eitemau drwy e-bost at eich cyswllt neu drwy'r prif gyfeiriad: cymru@heritagefund.org.uk

Mae gennym dîm cwbl ddwyieithog yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf. Rydym yn croesawu galwadau ffôn (Opsiwn 1 i siarad ag aelod o staff yn Gymraeg), e-byst a llythyrau yn Gymraeg ac yn Saesneg a ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi ychwanegol wrth ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am y Gymraeg ac i glywed mwy am ein cynnydd presennol wrth i ni ddiweddaru ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol, ewch i'r dudalen yma.